# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 13eg Ionawr 2025
Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Gareth Jones, Chris Brady, Deio Williams, Catrin Williams, Sian Parri, Alun Williams, Alan Hughes, Henry Hughes, John Daves.

Ymddiheuriadau: Sioned Pearson

1. Cadeirwyd gan Catrin Williams, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Wedi ystyried gofynion y cais cynllunio, penderfynwyd y dylid cael cymorth allanol i gwblhau y cais gan greu planiau i raddfau, manylion lledu'r ffordd, tirlinio, datganiad seilwaith gwyrdd, asesiad ecolegol, ac asesiad yslumod. Dywedodd Chris Brady fod is bwyllgor bychan wedi ei sefydlu sy'n cynnwys Chris Brady, Alun Williams, Dafydd Williams a Catrin Williams – bydd yr is bwyllgor yn adrodd yn ol i'r Cyngor Cymuned pob mis.
   b. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** Ni chafwyd ymateb, bydd y Clerc yn anfon eto at Gorfodaeth gan bwysleisio'r pryder sydd yn yr ardal – yn bennaf oherwyd nad oes 'cesspit' ar y tir, ac felly beth sy'n digwydd i'r gwastraff dynol.
   c. **Cwt Cychod Porthysgaden –** Ni chafwyd ymateb.
   **Ch.** **Gwaith adeiladu yn Rhos y Grug** – Ni chafwyd ymateb. Ymddengys fod y gwaith adeiladu bron wedi ei gwblhau. Bydd y Clerc yn cysylltu unwaith eto a'r Adran Gorfodaeth.

d. **Gwaith adeiladu yn Lion Tudweiliog –** Yn ystod cyfnod y Nadolig daeth sawl cwyn i law am swn uchel yn dod o'r Lion (yn arbennig o'r darn newydd). Cysylltodd y Clerc ar adran Gwarchod y Cyhoedd, ple cafwyd ar ddeall y gall Cyngor Gwynedd ymchwilio ar ran person sy'n cwyno i weld os oes 'Niwsans Statudol' yn bodoli – ond mae'n rhaid i'r sawl sydd yn cael ei effeithio adrodd ei gwyn yn uniongyrochol i'r Cyngor (ni all Cyngor Gwynedd ymchwilio i gwynion dienw) – ni all y Cyngor Cymuned adrodd ar ran trigolion.

   Hefyd golyga fod effaith adeiladu darn mor fawr ar safle parcio'r Lion yn achosi i gerbydau dros y Nadolig fod yn defnyddio maes parcio'r Ysgol a rhai yn parcio ar y lon fawr. Mae pryder mawr wrth feddwl sut fydd y sefyllfa yn ystod yr haf pan fydd nifer ymwlewyr i'r Lion yn codi'n sylweddol.

   Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Gorfodaeth gan ychwanegu'r uchod i'r pryderon am y safle.

   Bydd y Clerc hefyd yn anfon llythyr o'r Cyngor cymuned at berchennog y Lion yn datgan pryderon y trigolion cyfagos.

**Dd**. **Difrod Porth Cyngod –** Methodd y Clerc a cysylltu Cymdeithas y Pysgotwyr – bydd yn ceisio eto mis yma. Bydd hefyd yn son wrthynt am gyflwr y cwt cychod.

4. Gohebiaeth:

   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu..
   b. **Hysbysfwrdd –** Derbynwyd ebost gan swyddog o'r Gronfa Datblygu cynaliadwy yn ein gwybyddu y dylai hysbysfwrdd Tudweiliog a Garnfadryn gael eu gorffen erbyn 1af o Fawrth.
   c. **Preasept 2025/26 -** Penderfynwyd cadw'r Preasept i £10,000.00

5. Unrhyw fater arall

   a. Cafwyd cwyn fod dwr yn cronni ar y ffordd rhwng Castell Coch a Wergloedd Fawr, hefyd ar y tro ger Waen wrth ymyll Tyddyn Mawr. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.
   b. Daeth pryder fod tai Cynefin ar fin gosod un o dai'r henoed Cae Capel Tudweiliog i berson ymhell o du allan i Wynedd a Chymru. Bydd y Clerc yn anfon at y Grwp Cynefin ac unrhyw asiantaeth arall a wel ynaddas yn galw arnynt i fabwysiadu Polisi Gosod Lleol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Chwefror 10ed am 7.30yh
Festri Capel Dinas.